

# GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM GORONAFEIRWS

## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Byddem yn eich annog i rannu'r diweddariadau a'r cyngor diweddaraf gennym ni @BetsiCadwaladr ar Twitter a hefyd @PublicHealthW. Byddem hefyd yn croesawu rhannu ein hysbysiadau Facebook - chwiliwch am Betsi Cadwaladr.

Y prif negeseuon yw:

- Gall aelodau'r cyhoedd amddiffyn eu hunain ac eraill trwy gario hancesi papur bob amser, a'u defnyddio wrth besychu neu disian. Dylent roi'r hances bapur yn y bin gan olchi eu dwylo gyda sebon a dŵr, neu ddefnyddio gel diheintio, er mwyn lladd y germau. Hon yw'r ffordd orau o arafu'r broses o ledaenu'r rhan fwyaf o germau, gan gynnwys Coronafeirws Newydd (COVID-19).
- Dylai unrhyw un sy'n poeni bod ganddo symptomau coronafeirws edrych ar wiriwr symptomau ar-lein Galw Iechyd Cymru [www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk) cyn cysylltu â'r GIG trwy ffonio 111. **Ni ddylai fynd i unrhyw leoliad gofal iechyd, yn cynnwys ysbytai neu feddygfeydd.**
- Os ydych yn bwriadu teithio, edrych ar gyngor ar deithio ar GOV.UK.

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL

[www.phw.nhs.wales](http://www.phw.nhs.wales)

[www.bcuhb.nhs.wales](http://www.bcuhb.nhs.wales)

[www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/) (gwiriwr symptomau).



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

# GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM GORONAFEIRWS

## GWASANAETH PROFI CYMUNEDOL

Rydym wedi sefydlu tair Uned Profi Cymunedol (CTU) yng Ngogledd Cymru er mwyn cynorthwyo'r ymateb i fynd i'r afael â Choronafeirws Newydd (COVID 19). Bydd yr unedau gyrru heibio'n ein helpu i ateb y galw am brofion dros yr wythnosau sydd i ddod.

Dim ond cleifion sydd wedi cwblhau asesiad cychwynnol trwy wasanaeth ffôn 111 Cymru Gyfan ac sydd ag apwyntiad gaiff eu profi yn yr unedau. Ni fydd aelodau'r cyhoedd sy'n mynd i'r unedau heb gael asesiad trwy 111 yn cael eu profi. Nid yw'r unedau yn cynnig gwasanaeth galw heibio ar droed ac ni fyddant yn cynnig profion heb apwyntiad ymlaen llaw.

Dylai unrhyw un sy'n poeni bod ganddo symptomau coronafeirws edrych ar wiriwr symptomau ar-lein Galw Iechyd Cymru [www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk) cyn cysylltu â'r GIG trwy ffonio 111. Ni ddylai fynd i unrhyw leoliad gofal iechyd, yn cynnwys ysbytai neu feddygfeydd.

Mae'r CTUs wedi'u lleoli yng Nghlinig yr Orsedd (Rossett), Wrecsam; Ysbyty Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan; ac Ysbyty Alltwen ym Mhorthmadog.

Yn dilyn asesiad cychwynnol gan Galw Iechyd Cymru neu 111 ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd gofyn i gleifion sy'n cyrraedd y diffiniad achos fel rhai a allai fod wedi cael eu heintio, ac sy'n teimlo'n ddigon iach ac yn gallu gyrru, fynd i'r Uned am brawf COVID-19. Swab syml o'r gwddf a'r trwyn yw'r prawf hwn.

Mae'r datganiad llawn i'r wasg ar gael yma:

<https://bcuhb.nhs.wales/news/health-board-news/community-testing-units-set-up-to-help-support-novel-coronavirus-diagnosis/>



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

# GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM GORONAFEIRWS

## GWASANAETH PROFI CYMUNEDOL - PARHAD

Hyd yn hyn, mae nifer fawr o brofion wedi'u cynnal yn y gymuned, a bydd hynny'n parhau. Yn unol ag arweiniad cenedlaethol, mae angen i'r holl swabiau gael eu rhoi gan staff sy'n gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) llawn.

Mae defnyddio ymagwedd gyrru heibio'n caniatáu i ni leoli ein staff mor effeithlon â phosibl. Mae hyn hefyd yn gwella diogelwch, gan fod staff yn gallu gwisgo cyfarpar diogelu personol a'i dynnu mewn amgylchedd rheoledig. Cefnogir yr ymagwedd hon yn genedlaethol, ac mae arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd yn fodlon bod yr ymagwedd hon yn gwbl ddiogel.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

# GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM GORONAFEIRWS

## GWASANAETH 111

Mae ein cydweithwyr yn WAST wedi datblygu gwiriwr symptomau Covid-19, sydd ar gael ar wefan Galw Iechyd Cymru [www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/) – ac maent yn cynghori y dylai unrhyw un sy'n poeni am ei symptomau edrych ar y gwiriwr yn y lle cyntaf. Gall rhywun ddychmygu bod gan lawer o bobl bryderon, wrth reswm, ond mae galwadau gan y rheiny sy'n iach ond sy'n poeni, yn rhoi pwysau diangen ar y llinellau ffôn. Bydd cleifion sy'n defnyddio'r gwiriwr symptomau'n cael cyngor p'un a oes angen iddynt ffonio. Mae hyn yn unol â'r ymagwedd a ddefnyddir gan NHS England ac mae'r opsiwn digidol cyntaf yn cael ei hyrwyddo er mwyn sicrhau bod llinellau 111 yn cael eu diogelu ar gyfer y rheiny sydd â gwir angen amdanynt.

Ar hyn o bryd, byddai o gymorth pe baech cystal â rhannu'r neges gyda'ch etholwyr y dylent edrych ar y gwiriwr symptomau ar-lein yn y lle cyntaf, gan ffonio 111 dim ond os cânt gyngor i wneud hynny.

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, wedi cyhoeddi bod 111 ar gael ar draws Cymru erbyn hyn i reoli galwadau am Covid-19. Cynhelir gwasanaeth 111 gan ein cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.

Yn y rhannau hynny o Gymru lle nad yw 111 wedi'i gyflwyno'n gyfan gwbl, yn cynnwys Betsi Cadwaladr, mae hyn yn golygu y bydd y sawl sy'n ffonio'n gallu cael cyngor a gwybodaeth am Covid-19 yn rhad ac am ddim.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board